

# Llên Natur

Bwletin 101 Mehefin 2016



gan gynnwys Llygad y Dydd mewn partneriaeth â chymdeithas Gwaith Maes



Picellwr praff cynta'r flwyddyn, gwarchodfa natur Glascoed Mai 21, 2016. Gweler (chwith) y croen larfaidd y daeth ohono. Y fenyw yw hon. Mae'r **gwryw yn las**.

Alun Williams



## Y Fursen rhifyn 86

Cylchlythyr diweddaraf (86) gweision neidr gogledd Cymru **yma**. Hanes y **gwas neidr tindrwm** ar y Ddyfrdwy



Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)


Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.

Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

**Un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd**

## MESUR DYFODIAD Y GWANWYN

Er mai 2013 oedd y gwanwyn hwyraf o'r gyfres (1995-2016) yn y gymhariaeth ddiwedd Mai, nid ymddangosodd hynny yn iawn tan tua diwrnod 73 (canol Mawrth), ond erbyn hynny roedd y tymor hwyr eisoes wedi cael effaith drwg ar y gwyfynod (tabl gwaelod)?



Ni fu'r gymhariaeth uchod yn gyson dros fisoedd eraill y gwanwyn. Gwanwyn tynheraf erbyn diwedd Chwefror (diwrnod 60 - gweler [Bwletin 98 tud. 5](#)) o ran tymheredd yn Waunfawr oedd 1997, ddiwedd Mawrth (91) oedd 1998 a diwedd Ebrill (121) oedd 2007. Gwanwynau hwyrach erbyn Mawrth oedd 2010 ac Ebrill oedd 2001. Roedd gwanwyn 2010 yn llawer hwyrach yng nghymhariaeth 'Mawrth' ond sgôr gwyfynod Ion-Maw (isod) yn uwch. Mae hyn yn awgrymu nad tymheredd y gwanwyn oedd y ffactor a effeithiodd fwyaf ar y gwyfynod yn 2013.



## Arolwg Gwyfynod Gerddi Cymru (GGC) - chwarter cyntaf 2016 (Ionawr-Mawrth)

ENW CYFFREDIN	cyfartaledd per gardd (Cymru)									
	2016	2015	2014	2013	2012	2011	2010	2009	2008	2007
crynwr gothig	20.63	40.16	61.8	16.4	63.0	100.3	70.7	46.1	26.5	58.1
crynwr cyffredin	16.77	28.05	45.0	6.2	23.4	74.6	45.5	34.7	19.1	75.7
crynwr amrywiol	8.30	18.59	30.1	5.6	21.6	41.7	32.6	18.5	10.6	20.9
llwydyn y gwyddfifid	5.79	10.08	10.6	3.2	12.8	11.5	11.9	9.0	7.0	18.2
crynwr bach	5.53	10.35	26.5	5.2	28.4	35.9	18.4	10.5	22.7	43.7
rhisglyn y derw	1.74	2.95	5.6	1.9	2.3	2.7	3.7	3.8	2.8	5.7
castan goch	1.60	1.84	4.1	1.0	2.7	5.2	3.8	3.6	3.1	10.2
crynwr dau smotyn	1.56	2.95	6.7	1.5	12.5	14.5	7.7	3.9	2.7	8.3
castan	1.49	2.89	3.2	0.5	4.4	5.0	6.5	2.3	1.4	2.4
gwyfyn Mawrth	1.14	2.24	2.8	1.6	1.6	2.2	3.4	1.9	1.2	4.8
carpiog cynnar	1.05	2.38	3.5	0.6	2.2	2.8	2.2	4.9	3.2	3.7
rhisglyn brith	1.02	3.86	8.4	1.3	2.0	8.0	7.1	4.6	2.9	6.0
brychan gwar-rhesog	0.86	1.92	2.4	0.6	2.8	4.1	3.3	1.4	4.2	6.8
rhisglyn ymyl fraith	0.84	2.43	2.6	1.7	2.2	2.3	4.1	1.5	1.3	3.9
brychan rhubanaid	0.67	1.41	1.0	0.1	0.8	2.8	1.5	1.5	0.9	2.2
brychan llwydfrith	0.53	1.08	1.9	0.2	1.2	4.0	4.4	3.0	N/A	N/A
tortrics afalau brown golau	0.53	0.46	0.2	0.0	0.5	0.2	0.1	0.1	0.4	3.1
crynwr llychlyd	0.35	1.65	2.3	0.1	1.3	3.4	0.7	0.6	0.7	0.9
pwtyn dwyresog	0.28	1.14	1.0	0.1	0.7	1.5	0.7	1.3	1.6	6.9
gwyfyn lloeren	0.28	0.46	0.4	0.2	0.6	0.6	0.8	0.3	0.2	0.1

Bu GGC yn mynd rhagddo ers 2007 ac mae trefnydd i gynllun GMS Prydain, Norman Lowe, yn paratoi crynodebau rheolaidd. Dyma'r diweddaraaf (chwith, canlyniadau chwarter cyntaf 2016): Ystyr y ffigyrau yw cyfartaledd niferoedd bob rhywogaeth ymhob trapiad gardd (Ion-Mawrth). Fe welwch mai 2013 oedd y chwarter gwaethaf o'r cyfnod (coch yn dynodi niferoedd sylweddol llai, gwyrdd yn dynodi sylweddol fwy). Ewch i'r graff uchod i weld gwanwyn 2013 mewn cyd-destun tymheredd gwanwynau eraill ers 1995.

Mae'r gwerthoedd coch yn y tabl yn dynodi'r lefel isaf yn y gyfres (2007-16) a'r gwerthoedd gwyrdd yr uchaf

## O ddyddiadur Lloyd George



Llun: llygaeron rhwng Pentrefoelas a Nebo Alun Williams

21 Gorffennaf 1886: *"In evening went up to Y Foel [sh463387 efallai, rhwng Tyddyn Sianel a Phen y Bryn].....[pwt o lawfer yma] about fields gathering Cranberries. About 9 a heavy thundershower came on & in a few minutes I was saturated. Went home in this condition – [hoots..aneqlur] these lightning flashes.*

Dyddiadur Lloyd George

Ydi llygaeron yn tyfu yng nghyffiniau'r Foel, Llanystumdwy, o hyd?

## Copyn-grancod Porth Neigwl



Un o nifer (degau) o goryn-grancod meirw ar draeth Porth Neigwl 5 Mehefin 2016 (dim byd arall wedi ei olchi ar y penllanw).

Mae'n debyg bod diffyg bysedd yn arwyddocaol. Dydi pysgotwyr rhwydi o'r glannau ddim yn eu hoffi gan eu bod yn malu'r rhwydi. Caiff bodiau'r crancod eu torri wrth eu tynnu'n rhydd (meddai gwerthwr pysgod o Gaernarfon i mi wedyn (7 Mehefin 2016) Duncan Brown

## Mwy am enwau anifeiliaid ar bobl

Mae yna dri phentref cyfagos yn Ne Sir Benfro ac mae'r brodorion yn cyfeirio at eu cymdogion, braidd yn amharchus fel -

- 1- Marloes gulls
- 2- Dale frogs
- 3- St Ishmaels mice.

A beth am y Crymych cowboys.

John Lloyd Jones

## Nyth Siglen Fraith o dan bonnet y tractor.



Er fod y tractor yn mynd bob dydd, chwalu tail ac ati, mae'r aderyn yn dilyn y tractor a magu cywion yn llwyddiannus o flwyddyn I flwyddyn ers 10 mlynedd. Da de! [Cwm Eidda, Padog cyn 21 Mai 2016]

Gwawr Angharad

## Mulfran a llysywen



Mulfran yn Afon Dyfrdwy, canol Caer, 13 Mehefin 2009. Aeth o dan y dwr a dod i'r wyneb efo slywen yn ei phig. Treuliodd y 5 munud nesaf yn llyncu'r pysgodyn. Gwyn Williams

*In June, 1902, I watched a number [of cormorants] feeding on eels in Pwllheli harbour. Some of the eels were quite two feet long, and difficult to manage. They were bitten across in several places by the birds before being swallowed, but even then they caused the most violent and ludicrous contortions of*

*the birds necks on their downward passage. How many eels each Cormorant ate I am not prepared to say, but they were feeding continuously all the time I watched them – nearly 2 hours!*

HE Forrest (1911) Vertebrate Fauna of North Wales

Y `slywen gyffredin *Anguilla anguilla* sydd yma. Pysgodyn y môr yw'r slywen sydd yn gallu byw mewn dwr croyw.... ond nid oes rhaid byw mewn dŵr croyw. Fe wnawn nhw fyw lle bynnag mae na ddigon o fwyd iddynt. Sion Roberts

## Garbhag an t-Slèibhe – cnwfwswogl mawr



llun: Wikipedia CC-BY-SA

*– a plant of great significance to the Gaels as a protector against evil. Its relative lus a' mhadaidh ruaidh (lus is simply generic for plant) means 'the clubmoss of the fox' because its light-coloured*

*sporophylls are reminiscent of the end of a fox's tail.*

Ruairidh McClean

## Gwalch y pysgod yn pysgota

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-highlands-islands-36320841> What camera does this guy have?

Steve Roddick


## Cocatw gang-gang



Cocatw Gang-gang ym Mharc Cenedlaethol Namadgi, dydd Sadwrn.[14 Mai 2016]

John Bundock

(Ewch yma i weld byd y cocatwod yn Gymraeg) Dyma'r parthau llustyfiant yn Awstralia mae Peter Edwards wedi ei baratoi. Dengys y saeth du y fan lle tynnwyd llun JB (yn y fforestydd sgleroffyl-sef y fforestydd o ddail caled fel sydd yn y llun mae'n debyg)



Allwedd y map: 1. rhosydd ac alpau; 2. fforestydd glaw; 3/4. fforestydd sgleroffyl (sych a gwlyb); 5. tiroedd coed (amrywiol); 6. prysgoed y mâli; 7. prysgoed y mylga; 8. glaswelltiroedd (amr.); 9. lled-grindir coediog; 10. prysgoed isel hallt

Peter Edwards

## Carthen ffatri wlan Niwbwrch....

...ym meddiant Einir Thomas, Pentre Ucha, Niwbwrch. Yr unig enghraifft o'r ffatri hon y gwyddys amdani. Meddai Einir: Roedd ffatri wlan yn nhywyn Niwbwrch a cheir y cyfeiriad cynta ati ym 1828. Ar fap OS 1926 fe'i henwir fel y "Rholdy", ond ar lafar gwlad Y Ffatri oedd hi. Erbyn diwedd yr Ail Ryfel Byd roedd y tywod wedi lluwchio drosti bron yn gyfangwbl ac heddiw nid oes arlliw ohoni yn unman. Wedi dyfodiad y Comisiwn Coedwigaeth credai rhai mai'r bwthyn ar waelod yr allt sef Pandy oedd y ffatri; ond nid felly.



## Tinwen y Garn yn nythu

- yn chwarel brysur y Gogarth Fach yn 1901

In 1901, Mr GA Hutchinson found two curious nests of wheatear on the Little Orme's Head. Both were in a quarry where a number of men work every day. One was under a plank leading to a dirt tip, over which wheelbarrows frequently pass; The other under an arch formed by three stones. Each contained six eggs entirely exposed to view

HE Forrest 1911. The Vertebrate Fauna of North Wales



Tinwen y Garn, Gwarchodfa Natur Conwy, Medi 14, 2011. llun: Eifion Griffiths

I guess it shows how much more common wheatears must have been then, if they were prepared to nest among the quarry workings. Although I see wheatears on migration on the Little Orme, I have never suspected them of breeding there. That said, looking through the reserve records the other day, I found that wheatear nested at RSPB Conwy for three consecutive years (in the late 1990s from memory), but not subsequently – I guess the newly created reserve looked quite like a quarry then, so lots of bare ground, which wheatears like. Julian Hughes > Gareth Pritchard

## Blwyddyn y gwaswyfyn?



Gwelsom y rhain wrth maes parcio Porth Neigwl SH284 267 p'nawn heddiw 20 Mai 2016. Gareth Jones  
Gwelodd Clwb Mynydda Cymru rai hefyd ddau ddiwrnod ynghynt ar Ynys Giffan Haf Meredydd

Enillydd cystadleuaeth Llygad y Dydd (Mehffin) oedd Kian Ames (9 oed) efo marciau llawn. £10 ar ei ffordd i ti Kian.

## Morghug adeiniog



Roedd yna ymladd rhwng y morgrug a'r y 13 o Awst, 2015, tri o'r gloch yn y prynhawn. Aeth y morgrug i ddechrau bwrw o'r awyr, dau yr un pryd i cychwyn, ond ar ôl dipyn roedd peli i fyny i chwech neu saith o forgrug yn disgyn. Aeth yr ymladd ymlaen am dros awr, weithiau, y coch yn ennill ac weithiau y rhai du. Wedyn aethen nhw i helpu lladd y rhai eraill o gwmpas. Ges i yr argraff fod y rhai coch yn gryfach.

Meic Watts

13 Awst y llynedd oedd diwrnod mawr

y morgrug hedegog y llynedd ar draws Wynedd o leiaf Meddai John Harold: "Debyg bod nhw i gyd o'r un rywogaeth ac 'ymladd' yn fwy fatha chwaraeon paru. Angen bod yn ofalus i 'wahanu'r gwenith o'r us'!"

John Harold

*Nuptial flight is an important phase in the reproduction of most ant, termite, and some bee species. During the flight, virgin queens mate with males and then land to start a new colony, or, in the case of honey bees, continue the succession of an existing hived colony.*

Wikipedia

Mwy am y digwyddiad hwn ym [Mwletin 92 \(tudalen 2\)](#) ac [yma yn yr Oriol](#). Cewch hefyd fwy o wybodaeth am [arolwg y morgrug hedegog yma](#).

## Cychod swlffwr yn dangos llif afon



Llun top ydy'r Afon Wensum yn Norwich, o'r arddangosfa graddio yn 1985. Mae'r ail yn un o Afon-y-Glyn ger Talsarnau. Mae'r patrwm yn cael ei greu gyda cychod bach 'origami' a kannwyll tu fewn, yn dilyn llif y dŵr. Yr exposure rhwyle rhwng awr a tair awr gyda Rolleiflex 2.4. Dwi'n tynnu'r lluniau o gwmpas y lleuad llawn. Mae geni gasgliad yn dilyn Afon-y-Glyn o Bryn Cadair Faner i'r môr. Dwi'n trio gwneud rhagor gyda hen camera 10" x 8" ond mae'r ffilm yn gostus. Chwaraeais gyda'r syniad o ffilmio hefyd ac mae hwn yn dod ymlaen yn dda.

Meic Watts

## Pedrynnod Wilson, Llif y Gwlff



...rhyw 35 milltir i'r de ddwyrain o ynys Hatteras, North Carolina, UDA Er yn un o adar mor fwyaf niferus ar y blaned, anaml y'u gwelir o'r lan. Maent yn magu yn yr Antartig ac yn treulio eu gaeaf yn gwneud cylchdro mawr ffigwr-8 o'r Môr Iwerydd. Byddant i'w gweld oddi ar eithafion gorllewinol arfordir Ewrop nes mlaen yn yr haf. Gellir adnabod y Pedryn Wilson o'i goesau hirion sy'n ymestyn ymhell heibio ei gynffon, a'r we felen rhwng y bysedd traed. Hefyd y bar golau ar draws rhan fewnol top yr adain. Maent hefyd yn hedfan mewn ffordd unigryw wrth fwydo gan ymddangos i fownsio yn osgeiddig oddi ar wyneb yn dŵr.

Rhys Jones

(ewch [yma am wledd o bedrynnod y byd](#))

## Gwylannod coesddu, Gogarth Fach



Credaf mai gwymon yw rhan helaethaf y nythod.

Gareth Pritchard

Nodweddion eraill: swm cwyno, *citi-wág*, *citi-wág*, cefn lliw llechen, blaenau'r adennydd fel petaent wedi eu trochi mewn inc du heb unrhyw wyn arnynt

[Dyma deulu'r wylan dros y byd](#), gyda'r wylan goesddu yn eu plith

## Yr hen hers geffyl...

Roedd hwn i'w weld yn Y Cwt Hers, Waunfawr, yn yr 1950au. Diolch i Mary Moreland, Cae Mawr, Waunfawr am dynnu sylw at ei leoliad presennol yn Nantgarw, yng ngofal Yr Amgueddfa Genedlaethol.



*It is now stored at the National Collections Centre, Nantgarw. I have attached a photograph.*

Mark Etheridge [Curadur: Diwydiant a Thrafnidiaeth, Adran Hanes ac Archaeoleg, Amgueddfa Genedlaethol Cymru]



## ....a'i gwt, Y Waunfawr

Cwt Hers tua 2015. Tynnwyd gan Mary Moreland, Cae Mawr.

*"Takes me back to my childhood in the fifties*

*when we used to peep through the doors to peer at this strange object lurking at the back of the cwt - and wonder! Local people "of a certain age" still use Cwt Hers as a reference point for that part of the village (I know I do myself) and the nearby ditch was where we never failed to get penbyliaid (tadpoles) every year. I also heard (forget where unfortunately) that occupied coffins were kept at Cae Mawr over the road overnight prior to funerals. I remember all of us youngsters standing and routinely removing our caps in respect as a cortège past us along the Lôn Bost (main road - post road) - but by then the cynhebrwng was a more automated affair of course."*

Duncan Brown

## Blwyddyn 'Y Mai' ym Mehefin 2016



Dyma gyflwr un ddraenen wen yn Waunfawr ar 7 Mehefin 2016

Meddai Mark Cocker yn ei Country Diary 7 Mehefin: *There had to be some benefits to the year's strange grey iron-clad winter-spring, which persisted right until last month in our area [Norfolk] Now we see those benefits in the late coming of our may blossom. The hedges have*

*turned into great waves of flowering luxuriance and, although the showing was strong in 2013 after its own cold-blasted start, I cannot recall a better hawthorn display.*

Edrychwch am flynyddoedd o ddrain gwynion hwyr gan y postiwr lwyfen1 ar ddiwedd **yr erthygl uchod**

## Nyth y durtur dorchog mewn cypreswydd *Leylandii*



Ron i'n meddwl sa chi'n licio gweld ein nythod. Dan ni di cal wy'r fwyalchen, wyau turtur torchog a'r wyau eraill yma rwan.

Anita Myfanwy


Roedd hwn mewn coeden leylandii ar 25 Mai 2016. Dyma rai o **durturiaid y byd**: sgroliwch am y durtur dorchog- perchen y nyth hwn. Mwy am y durtur dorchog ym Montnewydd ar dudalen 5 **rhifyn 89**

Gol.

Mae gen i rhyw deimlad bod y durtur dorchog yn ffafrio cypreswydd *leylandii* yn fawr fel coeden i nythu ynddo. Gan fod y durtur dorchog a'r gypreswydden fel eu gilydd yn newydd ddyfodiaid i gefn gwlad Cymru a thu hwnt (ers y 60au) ydi hi'n bosib bod y durtur wedi gallu manteisio ar ymlediad y goeden a bod yna ddibyniaeth rhannol gan yr aderyn ar y goeden. Pw sy'n cytuno... neu'n anghytuno?

Duncan Brown

## Nyth bronfraith



Dyma nyth "mwyalchen" Anita (uchod). **Teulu'r** fwyalchen yn sicr, ond bronfraith sydd wedi ymgartrefu yn ei gardd. Tudalen o "feibil yr hogia bach drwg" sydd ar y dde, sef "*The Observers Book of Birds Eggs*". Mae hi'n anodd iawn cael unrhyw lyfr ers y deddfau gwarchod adar sy'n dangos yr amrywiaeth o o wyau..



Dyma weddillion hen gasgliad wyau a etifeddwyd gan Blas Tan y Bwlch gynt o eiddo gwr o'r enw William Spoonley. Mae'r wyau yn gwbl gyfreithlon gyda llaw. Treiwch adnabod yr wyau- dim yn orchwyl hawdd!

## Creigiau Cyn-Cambriaidd Niwbwrch



Dau lun o'r 1920au (uchaf) a heddiw (Mai 2016). Mae'r hen lun yn dangos craig Cyn-Cambriaidd yn nhywyn Niwbwrch tua 1920au(?) gyda morthwyl yr enwog ddaearegydd Edward Greenley (chwith, hefyd yn Niwbwrch) wrth odre'r graig. Mae'r llun diweddar yn dangos yr un graig gyda'r holl newidiadau i'r tirlun ers hynny, a'r tywyn bellach yn goedwig yng ngofal CNC. Ond does fawr o newid i'r graig.... Cyfranwyd gan Graham Williams

## Llifogydd Pays de Loire 1910

Clywyd dipyn o son am y llifogydd difrifol yn Ffrainc ddechrau Mehefin eleni. Fe'i cymharwyd a llifogydd 1910 - ac fel hyn y bu (dde).



Dyma hanes yr argyfwng yng ngwyneb y llif yn y Louvre ym Mharis ar 2 Mehefin 2016 yn ol papur newydd [Le Point](#): *Dans les grands musées parisiens le long de la Seine, c'était le branle-bas de combat jeudi pour mettre une partie des collections à l'abri, exercice auquel ils se préparent depuis plusieurs années. Musée le plus visité au monde, le Louvre sera fermé vendredi pour évacuer « à titre préventif » des oeuvres stockées dans ses réserves, alors que, sur la rive opposée, le musée d'Orsay a annulé sa nocturne de jeudi pour mettre en place un « plan de protection ».*

## Sgrimsio Frongoch yn 1916




...these pictures... show a piece of scrimshaw, shaped some what like a harp and fashioned from a bone. The bone is inscribed "Frongoch 1916". The article is reputed to have been created by someone interred at Frongoch following the Easter uprising 1916. Metal pins in the bone suggest the representation of harp strings. The article is about 3 to 4" in length.

Cafodd y gwrthrych ei brynu yn Nulyn yn ddiweddar  
Steve Roddick

## Hel cerrig

Roedd hel cerrig yn orchwyl cyffredin ar ffermydd ers stalwm. Cofnododd llawer o ddyddiadurwyr am y gwaith diflas hwn. Cofnododd ambell brifathro hefyd i'w ddisgyblion golli ysgol oherwydd i ffermwyr lleol eu talu i wneud hyn ("llafur plant (anghyfreithlon)" fuasai ein henw ni arno heddiw!). Er enghraifft:

Waunfawr 19 Ebrill 1865: *Many children absent gathering stones, and keeping the sheep* Log ysgol Waunfawr, Arfon



Trawsfynydd 10 Mehefin 1887: Hel cerrig Cae Glas

Dyddiadur DT Jones, Goppa

Dyma ddod â'r 140+ o gofnodion o "hel cerrig" a "gathering stones" ynghyd a sylweddoli bod y gwaith hwn yn cymryd lle yn ddi-eithriad rhwng Mawrth a Mehefin yn unig gyda phenllanw yn Ebrill. Mae patrwm un-foddol (un pen-llanw) y siart yn awgrymu UN diben i'r gwaith? Ond beth oedd y diben hwnnw. A'r clirio yn digwydd mor hwyr yn y gwanwyn, mae'n anodd ei esbonio yn nhermau clirio tir ar gyfer plannu cnydau. Unrhyw gynigion chi amaethwyr?



# Llygad y dydd

CYMDEITHAS  
GWAITH MAES  
arwain addysg yr amgylchedd yng nghymru



Dyma deulu'r **MENTYLL** - **mantell dramor**, **mantell gariog** (sylwch ar ei adennydd carpiog) a'r **fantell goch** (y godidocaf!)  
**Rhowch enwau arnynt**





Y **brithegion** yw rhain. Y **fritheg werdd** yw'r mwyaf, y **fritheg berlog fach** yw'r mwyaf cyffredin, a **britheg y gors** yw'r prinaf. Mae'n rhaid iddynt fwydo fel lindys ar ddail **fioledau** neu ar **damaid y cythraul** yn achos yr olaf.



**Rhowch enwau arnynt**



Dau o deulu'r **brithribinod** **Rhowch enwau arnynt**



Nid pob un o deulu'r **gwynion** sydd yn bwyta eich planhigion bresych. **Pa un sydd DDIM?**



Mae lindys y **gweirloynnod** i gyd yn bwyta gweiriau ac mae pob un o liw brown. **Rhowch enwau arnynt**



Cofiwch mai lindys yw gloynnod byw cyn newid eu gwisg  
**I ba deulu mae rhain yn perthyn**

**Adnabod**  
y gloynnod pyw  
(neu'r pili palod)  
**AC ENNILL £10**  
am fod y cyntaf  
i gael y mwyaf o atebion cywir  
i'r cwestiynau **print glas** i'n  
cyrraedd erbyn  
y 15ed Gorffennaf  
trwy ebost Llen Natur  
llennatur@yahoo.co.uk  
Tynnwyd y lluniau gan ffotograffwyr  
Prosiect Llên Natur ac mae nhw i gyd i'w  
gweld gyda manylion llawn yr Yr Oriol.



Dyma ddau o deulu'r **glesynnod**. Y glesyn cyffredin a glesyn y celyn yn ei liw glas golau hufenaidd.  
**Pa un sydd yn dodwy ei wyau ar eiddew?**